**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7 o’r gloch Nos Fawrth, 19eg Mawrth 2019**

**Presennol:** Cyng. Beryl Salisbury (Cadeirydd)
Cyng. Gwilym O. Jones
Cyng  Gordon Owen
Cyng. William Victor Owen
Cyng. Sharon Wyn Parry
Cyng. Einir Thomas
Cyng. Dyfed Williams

**Ymddiheuriadau:** Dim

**2.** **Datganiad o ddiddordeb: -** Cyng. Gordon Owen – eitemau 5.2 FPL/2019/53 - Cymyran House, Caergeiliog, HHP/2019/36 - Fron Deg, Caergeiliog. 9.2 a 9.5.(Rhoddion). Cyng. Gwilym O. Jones eitemau 9.1, 9.2 a 9.5.(Rhoddion). Cyng. Sharon Parry eitem 9.4 (Rhoddion). Gadawodd y Cynghorwyr y cyfarfod ar gyfer rhain.

**3.** **Cofnodion cyfarfod  19eg Chwefror 2019**
Derbyniwyd bod y cofnodion yn gywir (Cynnig Cyng. Gwilym Jones, eilio Cyng. Dyfed Williams.)

**4.** **Materion yn codi o’r cofnodion:**

1. Cae Chwarae - roedd MacVenture Playground am ail osod y matiau diogelwch a byddai'r clerc yn dilyn i fyny ar y materion a nodwyd yn yr Adroddiad Arolygu Gweithredol.

2. Hysbysfwrdd – roedd y clerc yn aros am ymateb gan CSYM ynglŷn â lleoli’r bwrdd wrth Stad y Hen Ysgol.

3. Lloches Fws – Stad Tre Ifan - roedd y mater hwn yn parhau.

4. Hen Ysgol, Caergeiliog – trafodwyd yr amgylchiadau yn ymwneud â gwerthu'r adeilad yr hen ysgol a thŷ'r ysgol yn fanwl. Nodwyd o’r dogfennau a ddaeth i law yn ddiweddar fod yr ysgol wedi'i hadeiladu at ddefnydd y gymuned yn unig, ond datgelwyd hefyd nad oedd unrhyw gyfarwyddeb gyfreithiol ar sut y byddai'r asedau'n cael eu dosbarthu os na chawsant eu hadennill gan y cymwynaswr pan gaeodd yr ysgol. Er gwaethaf hyn, ac ar ôl hir amser fe werthwyd y ddau eiddo gan yr Ymddiriedolwyr heb ymgynghori â'r Cyngor Cymuned a hawliodd Yr Eglwys yng Nhymru’r cwbl fel ei eiddo ei hun a chadw'r elw.

   Gan na allai Cyngor Cymuned Llanfair yn Neubwll fod wedi sefydlu teitl clir ar adeg y gwerthiant, cytunwyd na ddylid mynd â'r mater ymhellach.

5. Unrhyw fater arall yn codi o'r cofnodion – dim.

Llofnod…………………………………………….Cadeirydd…………………………

**5. Deddf Gynllunio Gwlad a Thref:**

**5.1** Penderfyniadau cynllunio - dim

**5.2** Ceisiadau Cynllunio – Datganodd Cyng. Gordon Owen fuddiant oedd yn rhagfarnu a gadawodd yr ystafell cyn unrhyw drafodaeth ar y ddau eitem cynllunio.

**FPL/2019/53 - Cymyran House, Holyhead Road, Caergeiliog**.

Cais llawn ar gyfer newid defnydd y llawr gwaelod o fod yn ardal adwerthu (dosbarth defnydd A1) yn lle paratoi bwyd (B2) – dim gwrthwynebiad.

**HHP/2019/36 - Fron Deg, Holyhead Road, Caergeiliog.**
Cais llawn ar gyfer dymchwel yr adeilad allanol presennol ynghyd a codi dwy modurdu newydd ac sied - dim gwrthwynebiad.

**6. Gohebiaeth:**

1. Blaen Raglen waith y Pwyllgor Gwaith - diweddariad mis Chwefror 2019
2. Dyddiad Newydd Cyfarfod Rhwydwaith Trydydd Sector 2.4.19
3. Morlais: Gwahoddiad - Neuadd Gymunedol Llaingoch, 11.00 – 20.00 ar 19.3.2019
4. Cyngerdd Elusennol y Cadeirydd - 5.4.2019
5. Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned – copi o gyflwyniad ynglyn â Lwfans Aelodau.
6. GMS Garden Services - rhybudd o gynnydd mewn costau torri gwair. Cytunwyd y byddai'r clerc yn cael syniad o gostau gan gontractwyr eraill.
7. Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2019

   Cytunodd Cyngor Cymuned Llanfair yn Neubwll:

   - na fyddai'r Cyngor yn talu mwy na'r taliadau statudol mewn perthynas â Lwfansau Aelodau.
   - i dalu costau teithio pob aelodau ar gyfer mynychu dyletswyddau cymeradwy.

Llofnod…………………………………………….Cadeirydd………………………….

8. Bwletin Un Llais Cymru
9. Cyfarfod Pwyllgor Ardal Ynys Môn Un Llais Cymru – 7y.h. 21.3.2019
10. Cynnig i gau gwasanaeth fasgwlar YG Bangor - cytunwyd i wrthwynebu hyn.
11. Diwedd BDO-Grant Thornton – roedd cytundeb yr archwilwyr allanol presennol yn dod i ben ac o 2020 ymlaen bydd y gwaith yn cael ei gyflawni gan Swyddfa Archwilio Cymru.
12. Claddu Gwastraff Niwclear yng Nghymru

**7. Materion Ariannol**
**Yn y banc ar 19.3.2019 Cyfrif Cyfredol £12,094.01 Cyfrif Cadw £3,928.64**

**8. <u>Taliadau i'w gwneud</u>**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflog Chwefror | £173.29 | HMRC (TWE) | £44.00 |
| Archwilio Offer Chwarae | £42.80 | CSYM | £137.00 |

**Cytunwyd i dalu'r rhain.**

**9.** Rhoddion

9.1 Rhwyd £150
9.2 Eglwys Santes Fair - £50
9.3 Ambiwlans Awyr Cymru £150
9.4 Môn FM - £100
9.5 Neuadd Bentref Caergeiliog - £2,500

**10. Cyfrifon 18/19**
Cyflwynwyd a chadarnhawyd yr adroddiad ariannol a chysoniad banc am y cyfnod hyd at 28.2. 2019.

**11. Unrhyw fater arall:**
Fe anfonwyd y ffurflenni perthnasol at unigolyn o Lanfihangel yn Nhowyn oedd wedi datgan diddordeb mewn sedd wag ar y Cyngor. Bydd y clerc yn cyfathrebu gyda'r Cyngor Sir ynglŷn â hyn.

**12. Cyfarfod Nesaf – 16 Ebrill 2019.**

Llofnod…………………………………………Cadeirydd…………………………